Arolwg o'r Beibl

LLYFRAU'R GYFRAITH

GENESIS	YR HEN DESTAMENT	EXODUS
Awdur: Moses **Amser:** c.1450 CC -1400 CC **Lleoliad:** Aifft, Canaan ac ehangach **Pwrpas:** Gosod sylfaen hanesyddol a diwinyddol **Athrawiaeth:** Creu, cwymp **Cynnwys: (Pennod)** 1-11 Hanes cynnar y byd 12-50 Hanes teulu Abraham - pobl Dduw **Adnod Allweddol**: 17:7	LLYFRAU'R GYFRAITH PUM LLYFR MOSES	**Awdur:** Moses **Amser:** c.1445 CC -1440 CC **Lleoliad:** Aifft i Sinai **Pwrpas:** Duw yn prynu ei bobl o gaethiwed **Athrawiaeth:** Prynedigaeth, cyfraith Duw **Cynnwys: (Pennod)** 1-13 Yr exodus o'r Aifft 14-18 O'r Môr Coch at Sinai 19-40 Cyfreithiau Sinai **Adnod Allweddol** 34:6-7
LEFITICUS	**NUMERI**	**DEUTERONOMIUM**
Awdur: Moses **Amser:** c.1445 CC -1400 CC **Lleoliad:** Sinai **Pwrpas:** Sut i addoli a byw yn sanctaidd **Athrawiaeth:** Iawn, sancteiddrwydd **Cynnwys: (Pennod)** 1- 7 Aberthau 8 - 10 Offeiriaid 11-17 Aflendid a glendid seremoniol 18 - 27 Y bywyd sanctaidd **Adnod Allweddol**: 19:2	**Awdur:** Moses **Amser:** c.1445 CC -1400 CC **Lleoliad:** O Sinai i Moab **Pwrpas:** Olrhain trafferthion y daith **Athrawiaeth:** Y bywyd Cristnogol **Cynnwys: (Pennod)** 1 - 9 Wrth fynydd Sinai 10 - 21 Y daith i Moab 22 - 36 Yn Moab **Adnod Allweddol**: 14:9	**Awdur:** Moses **Amser:** c.1401 CC -1400 CC **Lleoliad:** Gwastadedd Moab **Pwrpas:** Atgoffa'r bobl o Gyfraith Duw cyn mynd i Wlad yr Addewid **Athrawiaeth:** Cyfraith Duw **Cynnwys: (Pennod)** 1 -- 4 Cofio'r gorffennol 5 - 26 Ailadrodd y Gyfraith 27 - 30 Adnewyddu'r cyfamod 31 - 34 Josua a ffarwel Moses **Adnod Allweddol**: 6:4, 5

Dyma grynodeb o gynnwys llyfrau'r gyfraith. Yn y siart mae'r amser yn nodi pryd yr ysgrifennwyd y llyfrau. Mae'r rhaniadau yn fras iawn i roi syniad o'r cynnwys, a phwrpas yr adnod allweddol yw nid nodi adnodau enwocaf y llyfr ond un o'r adnodau sy'n crynhoi rhai o'r prif negeseuon.

Mae llyfrau'r gyfraith yn gosod sylfaen i'r Beibl. Yma cawn hanes Duw yn creu'r byd, y cwymp i bechod ac addewid Duw am iachawdwriaeth. Mae'n cyflwyno i ni'r ddealltwriaeth Gristnogol sylfaenol am gyflwr y byd. Nodaf yn sydyn 3 o'r prif themâu.

1 Dechreuad pobl Dduw

Mae hanes y patriarchiaid yn darlunio y prif wirioneddau am achubiaeth pobl Dduw. Abraham yn dangos pwysigrwydd ffydd, Isaac yn dangos yr angen am enedigaeth wyrthiol a Duw yn darparu oen yn aberth yn ein lle. Mae Jacob yn ein hatgoffa mai pechaduriaid sy'n cael eu troi yw pobl Dduw a Joseff yn dangos mai Gwaredwr gwrthodedig sy'n ein hachub. Ond daw'r darlun amlycaf o iachawdwriaeth yn yr Exodus o'r Aifft a'r Pasg.

2 Y Gyfraith

Gellir rhannu'r cyfreithiau yn rhai seremoniol, sifil a moesol. Pwrpas gyfraith, yn ogystal â llesteirio drygioni yn y gymdeithas, yw dangos ein pechod ni a sancteiddrwydd Duw, a'n harwain ni at Grist.

3 Cyfamod

Mae Duw yn ei ymrwymo'i hun wrth ei bobl trwy'i gyfamod. Mae cyfamod â Noa ac Abraham ond yn arbennig â chenedl Israel o Fynydd Sinai. Cofiwn mai ystyr 'Hen Destament' yw 'hen gyfamod'. Mor rhyfeddol yw fod Duw mor fawr wedi'i ymrwymo'i hun wrth ei bobl trwy gyfamod.

Derrick Adams